



Ecosystem Fferm Ifan

Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

GWELLA CADERNID O'R GWAELOD I FYNY

Mae ystad Ysbyty Ifan yn stad amaethyddol yn Eryri, dan ofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r ystad, gyda'i thirwedd a'i chynefinoedd amrywiol, yn gorchuddio 8,000 hectar o rostir agored uchel ac yn cynnwys y Migneint, sef un o'r ardaloedd mwyaf o orgors yng Nghymru.

Mae'r Migneint yn doreithiog o gymunedau planhigion ac adar ac yn ffurfio rhan o ardal sydd wedi'i dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardal Cadwraeth Arbennig ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig.

Gyda llawer o ffermydd ar yr ystad o fewn yr ardaloedd dynodedig hyn, mae grŵp o 11 o ffermwyr tenant wedi mynd ati i geisio gwella cadernid ecosystemau'r ardal. Dechreuodd prosiect Fferm Ifan a arweinir gan ffermwyr ar ei waith, gan gymryd camau gweithredu ar raddfa tirwedd i reoli tir.

MANTEISION Y CYLLID

Yn 2018, derbyniodd Fferm Ifan £696,352 o gyllid o dan y thema Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020, sy'n cael ei hariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Mae'r prosiect wedi elwa'n fawr o'r cyllid ac wedi galluogi'r grŵp a arweinir gan ffermwyr i ymgymryd â gweithgareddau i reoli tua 2,456ha o dir.

Trwy ddysgu, rhannu syniadau a chydweithio'n agos â phartneriaid y prosiect h.y. yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, RSPB, y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg, Prifysgol Bangor a Chyfoeth Naturiol Cymru, mae'r grŵp wedi ennill yr arbenigedd angenrheidiol i gyflawni'r camau gweithredu rheoli tir yn sgil targed yn effeithiol iawn.

Mae gwaith hefyd wedi'i wneud ar gysiau dŵr i leihau llygredd amaethyddol. Mae'r grŵp wedi ffensio cysiau dŵr i gadw stoc allan, gan wella ansawdd dŵr afon Conwy. Mae profion pridd hefyd wedi'u cynnal ar tua 240 o gaeau glaswelltir wedi'u gwella o amgylch y Migneint i sicrhau cynllunio effeithlon ar gyfer rheoli maetholion, pridd a dŵr.





Gyda hawliau pori i'r Migneint, cafodd y grŵp hefyd arweiniad gan y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH) ar arfer gorau mewn perthynas â phlannu sy'n sensitif i ddalgylch. Plannodd y grŵp 1,505 o goed a 139 o goed gwasgaredig. Mae 11,800m o wrychoedd wedi'u plannu neu eu hadfer, ac mae 800m o goridorau glan nentydd wedi'u creu i helpu i ddiogelu cynefinoedd glan yr afon, i leihau erydiad pridd ac i liniaru perygl llifogydd i lawr yr afon yn Nyffryn Conwy.

Mae'r prosiect nid yn unig wedi sicrhau buddion economaidd-gymdeithasol i'r 11 fferm o fewn Fferm Ifan, ond hefyd i'r gymuned wledig ehangach. Cafodd y rhan fwyaf o'r gwaith cyfalaf yn ystod cyfnod y prosiect ei wneud gan gontractwyr lleol a fu'n gymorth i greu gwaith yn lleol.

MAE'R DYFODOL YN DDISGLAIR...

Fel rhan o'r treialon pori, mae gwartheg wedi'u cyflwyno i'r Migneint am y tro cyntaf mewn cof ac mae grŵp Fferm Ifan yn gobeithio y bydd y coed a'r gwrychoedd a blannwyd a'r coridorau glan nentydd yn helpu i storio carbon a lleihau perygl llifogydd yn Nyffryn Conwy yn y dyfodol.

Mae grŵp Fferm Ifan wedi bod yn feiddgar ac wedi ystyried yr holl gyngor arbenigol sydd ar gael i sicrhau dyfodol y tir dynodedig hwn er mwyn sicrhau cadernid yr ecosystemau cyfagos ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn y gobaith o annog mwy o fioamrywiaeth a bywyd gwylt yn y mawndir.

"Rydyn ni'n hynod o falch o'r hyn rydyn ni wedi'i gyflawni gyda Fferm Ifan. Fel ffermwyr, rydyn ni'n ymwybodol iawn o effeithiau newid hinsawdd, ac rydyn ni eisoes yn addasu ein harferion ffermio ar y fferm, yn ôl yr angen. Fodd bynnag, pan fyddwch yn cydweithredu ac yn gweithredu ar raddfa fawr fel hyn, rydych yn dod i werthfawrogi pŵer cydweithio. Mae'n anhygoel gweld newidiadau cynnil, ond hollbwysig, i'r amgylchedd naturiol o ganlyniad i ymdrech ar y cyd.

"Trwy hyfforddi a gweithio gyda'n partneriaid prosiect, mae'r prosiect wedi caniatáu i ni ddysgu sgiliau newydd, ennill profiad ac arbenigedd ar sut i reoli'r dirwedd ysbennydd hon, fel y gallwn rannu a throsglwyddo ein gwybodaeth i genedlaethau'r dyfodol.

"Ydyn, rydyn ni wedi cyflawni llawer, ac eto allwn ni ddim bod yn hunanfodlon. Mae'n broses barhaus, ac rwy'n gobeithio y bydd ffermio cyfrifol yn parhau yma, ac y bydd cenedlaethau'r dyfodol o deuluoedd ffermio traddodiadol yn gallu gwneud bywoliaeth dda, gan helpu ein cymuned ucheldirol Gymraeg i ffynnu a llwyddo. Rwy'n credu y bydd defnyddio'r dulliau ffermio hyn i warchod ein hecosystemau a'n bioamrywiaeth nid yn unig yn broffidiol i ffermwyr, ond hefyd yn allweddol i oroesiad byd natur."

Awel Jones, arweinydd prosiect Fferm Ifan